

Begw Broga Heb Dim Sané

Gan Heledd Bianchi

Cerwch o 'ma! Chi wastad yn trio fy nghopio i. Wedodd Miss James taw amser tawel 'di hwn; nid amser busnesa felly shiw, shiw. Trwynau mas! Pam na allen nhw adel llonydd i mi am unwaith. I chi newydd gael eich sbort amser chwarae yn fy maglu i a'm galw yn Begw Broga heb dim sané! Jest achos eich bod chi'n lico gwasgu i mewn i sané gwynion hir sy'n rhwystro'ch gwaed rhag llifo i'ch brêns, dyw hynny ddim yn meddwl bod fi am wneud yr un peth i'n mrêns i! Mae angen i'm traed cael anadlu dipyn. I chi 'girly girls' wedi cael eich 'molly codlan' gormod. 'Sdim syndod eich bod chi'n cael pothellu rôl i chi wlychu eich sané yn y pyllau dŵr. Sy na ddim sané ar eich traed, y bydde chi'n rhoi cyfle i'ch traed galedi. A ta waeth, dwy ddim angen gwenu trwy'r amser ydw i? Dyw bywyd ddim jest yn un parti mawr ydy e? Mae pethe difrifol yn digwydd yn y byd go iawn, blantós!

Croten digon pert oedd Begw Dafis, oedd mond yn 9 oed, ond yn soled fel petai yn lot hÿn. Roedd ganddi wallt cwta wedi eu dorri mewn siâp bob, oedd yn drwchus a sgleiniog fel molasys. Y bu rhaid i'w Mham thorri eu gwallt yn gwta rôl i twidl dym a twidl di saco 'chewing gum' y tu ol i'w chlustie tra'n gwasanaeth un bore. Roedd eu chroen yn dywyll fel cneuen. Y twyllau'u chyd-ddisgyblion eu bod yn dod o drâs y sipswn. Roedd ganddi llygaid mawr brown oedd wastad yn agored lêd y pen fel dwy soser de; llygaid barod amdani. Tra'n yr ysgol yr oedd Begw yn barod i weithio, ond unwaith gartref, roedd hi'n barod am ffwlbrï. Roedd hi'n dawel a swil ymhlith eu chyd-disgyblion adeg amser chwarae yn yr ysgol ond unwaith y daw'r amser iddi rhoi eu phen at y bwrdd, y llifau'r brwdfrydedd o'u gwythiennau. Roedd hi wedi bod yn ddisgybl yr wythnos troeon nawr ac wedi eu gosod ar y cwmwl wen sawl tro ers i'r athrawon ddechrau'r system cymylau yn mlwyddyn dau pan roedd hi'n chwech oed. Y bu rhan fwyaf o'r dosbarth ar y cwmwl las am eu ymdrechion, a thipyn ar y cwmwl du am fod yn haerllyg. Roedd sawl disgybl yn nosbarth Begw yn awyddus i'w thynnu i lawr safle ond ni llwyddiant. Wnaeth Mari Miniog fynd i'r drafferth o 'sgrifennu'n spencillyd. "Mae Begw Broga yn caru Robert Rolls" mewn inc du ar eu desg hi, ond ni lwyddodd i dwyllo Miss James am bod eu bysedd hi yn dweud y cwbl lot. "Teachers' Pet" bydde'r plant yn eu jeiban yn gyson. Roedd hi'n darged corcyn hitio bob amser chwarae. Byddai'r plant eraill yn eu dychannu am fod yn ferch fferm plain, di-fywyd, di her, di-bwrpas. Cofiwch, petawn nhw'n eu gweld hi ar y fferm, y byddent yn meddwl yn gwbl wahanol. Cenfigen oedd yng gwraidd y dychan ond ni ddeallai Begw hyn eto.

Unig blentyn oedd Begw, i Robert a Nansi Dafis o fferm Ilaeth Pen Lôn, yn Sir Aberteifi. Roedd Nansi wedi gofalu am ddiodefwyr dementia dros y blynyddoedd yng nghartref Cennyn Pedr ger Pentref Cagal. Roedd hi wedi mwynhau'r sialens o ofalu am yr henoed yn fawr, ond am iddi fod mor weithgar gydan't, y cafwyd eu anghenion hi eu osod nail ochr, nes roedd yr amer wedi mynd yn rhy hwyr iddi gario plentyn eu hunan. Yn gyfartal weithgar y bu Robert eu gŵr. Yr oedd wedi gweithio'n galed iawn ar y fferm gyda'u Dad, Jac a'u frodyr hŷn, Daniel a Lewis ers roedd e'n grwt bach. Pan gadaodd Daniel a Lewis y fferm er mwyn cynnal teuluoedd eu hunen ar ffermydd eraill gerllaw, y gadawyd cyfrifoldeb y gwaith fferm yng ngofal Robert. Roedd Robert a Nansi wedi ceisio troeon am faban a methu hyd roedd ysbryd y ddau wedi torri. Aeth gwaith ar y fferm yn draed môch am bod Robert fel clwtyn gwlyb o'r siom di-baid. Ni alla'u gadw lan gyda archebion y fferm, a bu sawl cwsmer reit flin pan byddau eu harchebion yn mynd ar goll a'r nwyddau anghywir yn dod i'w drŵs ben bore. Y bu rhaid i Nansi dorri lawr ar waith gyda'r henoed oherwydd gwendid a diffyg canolbwytio. Yr oedd eu chyd-weithwyr yn y cartref wedi dechrau pryderu y byddau hithau hefyd yn dilyn yr un trywydd os na byddai'n ofalus. Daeth yr isafbwynt pan anghofiodd hi pryd y cafodd Nerys Wyn, yn eu 'eighties', eu meddygyniaeth ddiwethaf. Roedd hi'n sicir iddi rhoi'r meddygyniaeth ar rhyw adeg ond nid yn sicir faint, a phryd. Aethpwyd hyn 'mlaen am ddyddie. Achos arall oedd pan roedd hi'n ffili cofio os oedd hi wedi rhoi meddygyniaeth i Arwel Jenkins, 'ninety two' o gwbl un diwrnod; Rhaid ystyried ei fod ar meddygyniaeth eithaf trwm am sawl mater meddygol. Dyna ddiwedd ar waith Nansi yng nghartref Cennyn Pedr am y tro. Y cymerwyd Nansi a Robert bwyll bach am dipyn wedyn. Mae angen cymeryd stoc ar fywyd o bryd i'w gilydd.

Un bore heulog daeth gwyrth I ddrŵs Nansi a Robert wedi'u lapio mewn bwndel o obaith; eu chroen yn frown fel cneuen, eu chwrls bach sidan yn sownd reit dynn i'w phen, a'u llygaid môr las yn sgleinio dan belydrau'r haul. Dedwyddwch o'r diwedd.